OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 685 (Cy.73)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

Rheoliadau Cynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin nad ydynt yn rhai IACS (Apelau) (Cymru) 2004

Wedi'u gwneud - -	*9 Mawrth 2004*
Yn dod i rym - -	*1 Ebrill 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi'i ddynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran honno, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol —

Teitl a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin nad ydynt yn rhai IACS (Apelau) (Cymru) 2004 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2004.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn —

ystyr "apelydd" ("*appellant*") yw person y mae penderfyniad cychwynnol wedi'i wneud ynglŷn ag ef gan neu ar ran y Cynulliad Cenedlaethol mewn cysylltiad â gweinyddu unrhyw un o'r Cynlluniau a restrir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn ac sy'n dymuno bod y penderfyniad cychwynnol hwnnw yn cael ei ailystyried gan neu ar ran y Cynulliad Cenedlaethol;

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru; ac

ystyr "dyddiad perthnasol" ("*relevant date*") yw'r dyddiad y cafodd y penderfyniad cychwynnol ei wneud.

Cymhwyso

3. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys ynghylch apelwyr yr oedd eu cyfeiriad masnachu, neu os oes mwy nag un cyfeiriad o'r fath, yr oedd eu prif gyfeiriad masnachu, yng Nghymru ar y dyddiad perthnasol.

(**1**) Yn rhinwedd Gorchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) (Rhif 3) 1999 (O.S. 1999/2788).
(**2**) 1972 p.68.

Darparu gweithdrefn apelau

4.—(1) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol sefydlu gweithdrefn, sydd i'w defnyddio ar gais unrhyw apelydd, ar gyfer ystyried ymhellach ar ran y Cynulliad Cenedlaethol benderfyniad cychwynnol a wnaed ynglŷn â'r apelydd mewn perthynas â gweinyddu unrhyw un o'r Cynlluniau a restrir yn yr Atodlen, a bod y weithdrefn honno yn gweithredu drwy gyfrwng apêl yn erbyn y penderfyniad cychwynnol.

(2) Caiff unrhyw weithdrefn a sefydlir felly ddarparu bod ystyriaeth o'r penderfyniad cychwynnol gan y personau (heb fod yn fwy na thri) sy'n cael eu penodi gan y Cynulliad Cenedlaethol at y diben hwnnw, a hynny gyda'r bwriad y byddent yn llunio adroddiad am eu casgliadau ynglŷn â'r penderfyniad cychwynnol ac argymhelliad ynglŷn â'r ffordd y dylai'r mater gael ei benderfynu'n derfynol ganddo

(3) Os bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn sefydlu'r weithdrefn a grybwyllir ym mharagraff (2), caiff —

(a) talu i'r personau a benodir felly unrhyw dâl rhesymol am eu swyddogaethau o dan y weithdrefn honno, ac unrhyw lwfansau teithio a lwfansau eraill, y bydd yn penderfynu arnynt; a

(b) codi'r ffi (a honno heb fod yn uwch na £100) y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu arni ar unrhyw apelydd y mae ei apêl yn cael ei hystyried o dan y weithdrefn a sefydlwyd felly am y costau a dynnwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol yn rhinwedd rhoi'r weithdrefn honno ar waith mewn perthynas â'r apêl o dan sylw.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**)

John Marek
9 Mawrth 2004 — Dirprwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**3**) 1998 p.38.

YR ATODLEN Rheoliad 2 a 4 (1)

CYNLLUNIAU Y CAIFF CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU SEFYDLU GWEITHDREFN APELAU AR EU CYFER

Y Cynllun	*Rheoliad y cyngor sy'n sefydlu'r cynllun*
CYFFREDINOL	
Cymorth ar gyfer Myst Grawnwin Dwysedig	(EC) Rhif 1493/1999(**4**) ar gyd-drefniadaeth y farchnad mewn gwin (Erthygl 34)
Cymorth Porthiant Dadhydradedig	(EC) Rhif 1786/2003(**5**) ar gyd-drefniadaeth y farchnad mewn porthiant dadhydradedig.
Cymorth Bwyta Afalau	(EEC) Rhif 2826/2000(**6**) ar weithgareddau hysbysrwydd a hyrwyddo ar gyfer cynhyrchion amaethyddol sydd ar gael ar y farchnad fewnol
Rhaglen Hysbysrwydd Cig Eidion	(EC) Rhif 2826/2000(**7**)) ar hysbysrwydd ar gyfer cynhyrchion amaethyddol sydd ar gael ar y farchnad fewnol a chamau i'w hyrwyddo (Erthyglau 1 a 2)
Ymenyn ar gyfer Gweithgynhyrchu	(EC) Rhif 1255/1999(**8**) ar gyd-drefniadaeth y farchnad mewn llaeth a chynhyrchion llaeth (Erthygl 13(1)(c) — (d))
Ymenyn ar gyfer Cyrff nad ydynt yn Gwneud Elw	(EC) Rhif 1255/1999(**9**)) ar gyd-drefniadaeth y farchnad mewn llaeth a chynhyrchion llaeth (Erthygl 13(1)(a))
Rheoli Casein wrth Wneud Caws	(EC) Rhif 1255/1999(**10**) ar gyd-drefniadaeth y farchnad mewn llaeth a chynhyrchion llaeth (Erthygl 12). (EEC) Rhif 2204/90(**11**) yn gosod rheolau cyffredinol ychwanegol ar gyd-drefniadaeth y farchnad mewn llaeth a chynhyrchion llaeth o ran caws fel ei ddiwygiwyd ddiwethaf gan (EC) Rhif 2583/2001(**12**))
Cymhorthdal Cynhyrchu Casein	(EC) Rhif 1255/1999(**13**) ar gyd-drefniadaeth y farchnad mewn llaeth a chynhyrchion llaeth (Erthygl 12)

(**4**) OJ Rhif L179, 14.7.1999, t.1.
(**5**) OJ Rhif L270, 21.10.2003, t.114.
(**6**) OJ Rhif L328, 23.12.2000, t.2.
(**7**) OJ Rhif L328, 23.12.2000, t.2.
(**8**) OJ Rhif L160, 26.6.1999, t.48.
(**9**) OJ Rhif L160, 26.6.1999, t.48.
(**10**) OJ Rhif L160, 26.6.1999, t.48.
(**11**) OJ Rhif L201, 31.7.1990, t.7.
(**12**) OJ Rhif L345, 29.12.2001, t.6.
(**13**) OJ Rhif L160, 26.6.1999, t.48.

Y Cynllun	*Rheoliad y cyngor sy'n sefydlu'r cynllun*
Cymorth Prosesu Sitrysau	(EC) Rhif 2202/96(**14**) yn cyflwyno cynllun cymorth Cymunedol ar gyfer cynhyrchwyr ffrwythau sitrws penodol (Erthygl 1)
Ymenyn Dwysedig ar gyfer ei Fwyta'n Uniongyrchol	(EC) Rhif 1255/1999(**15**) ar gyd-drefniadaeth y farchnad mewn llaeth a chynhyrchion llaeth (Erthygl 13(1)(e))
Rheoli'r Defnydd Olaf ar	(EC) Rhif 2202/96(**16**)) yn cyflwyno cynllun cymorth Cymunedol ar gyfer Ffrwythau a Llysiau Penodol cynhyrchwyr ffrwythau sitrws penodol (Erthygl 30)
Cymorth Prosesu Ffibrau	(EC) Rhif 1673/2000(**17**) ar gyd-drefniadaeth y marchnadoedd mewn llin a chywarch sy'n cael eu tyfu ar gyfer ffibr fel ei ddiwygiwyd ddiwethaf gan (EC) Rhif 1782/2003(**18**))
Cymorth Trosglwyddo Pysgod	(EC) Rhif 104/2000(**19**) ar gyd-drefniadaeth y marchnadoedd mewn cynhyrchion pysgodfeydd a dyframaethu (Erthygl 23)
Cymorth Cyfradd Safonol Pysgod	(EC) Rhif 104/2000(**20**) ar gyd-drefniadaeth y marchnadoedd mewn cynhyrchion pysgodfeydd a dyframaethu (Erthygl 24)
Premiwm Cyfradd Safonol Pysgod	(EC) Rhif 104/2000(**21**)) ar gyd-drefniadaeth y marchnadoedd mewn cynhyrchion pysgodfeydd a dyframaethu (Erthygl 24)
Cymorth Storio Pysgod yn Breifat	(EC) Rhif 104/2000(**22**) ar gyd-drefniadaeth y marchnadoedd mewn cynhyrchion pysgodfeydd a dyframaethu (Erthygl 25)
Iawndal ar gyfer Tynnu Pysgod oddi ar y Farchnad	(EC) Rhif 104/2000(**23**)) ar gyd-drefniadaeth y marchnadoedd mewn cynhyrchion pysgodfeydd a dyframaethu (Erthygl 21)
Tynnu Ffrwythau a Llysiau Ffres yn ôl	(EC) Rhif 2200/96(**24**) ar gyd-drefniadaeth y farchnad mewn ffrwythau a llysiau (Erthyglau 23 a 24) fel ei ddiwygiwyd ddiwethaf gan (EC) Rhif 2699/2000(**25**)

(**14**) OJ Rhif L297, 21.11.1996, t.49.
(**15**) OJ Rhif L160, 26.6.1999, t.48.
(**16**) OJ Rhif L297, 21.11.1996, t.49.
(**17**) OJ Rhif L193, 29.7.2000, t.16.
(**18**) OJ Rhif L270, 21.10.2003, t.1.
(**19**) OJ Rhif L17, 21.1.2000, t.22.
(**20**) OJ Rhif L17, 21.1.2000, t.22.
(**21**) OJ Rhif L17, 21.1.2000, t.22.
(**22**) OJ Rhif L17, 21.1.2000,t.22.
(**23**) OJ Rhif L17, 21.1.2000, t.22.
(**24**) OJ Rhif L297, 21.11.1996, t.1.
(**25**) OJ Rhif L311, 12.12.2000, t.9.

Y Cynllun	*Rheoliad y cyngor sy'n sefydlu'r cynllun*
Rhaglen Weithredol Ffrwythau a Llysiau	(EC) Rhif 2200/96(**26**) ar gyd-drefniadaeth y farchnad mewn ffrwythau a llysiau (Erthyglau 15 ac 16) fel ei ddiwygiwyd ddiwethaf gan (EC) Rhif 2699/2000(**27**)
Cydnabod Cyrff Cynhyrchwyr Ffrwythau a Llysiau	(EC) Rhif 2200/96(**28**) ar gyd-drefniadaeth y farchnad mewn ffrwythau a llysiau (Erthyglau 11 — 14) fel ei ddiwygiwyd ddiwethaf gan (EC) Rhif 1881/2002(**29**)
Cymorth Sudd Grawnwin	(EC) Rhif 1493/1999(**30**) ar gyd-drefniadaeth y farchnad mewn gwin (Erthygl 35) fel ei ddiwygiwyd ddiwethaf gan (EC) Rhif 2826/2000(**31**))
Cymorth Cynhyrchu Had Porfa	(EEC) Rhif 2358/71(**32**) y Cyngor ar gyd-drefniadaeth y farchnad mewn hadau (Erthygl 1) fel ei ddiwygiwyd ddiwethaf gan (EEC) Rhif 3695/92(**33**))(EEC) Rhif 1674/72(**34**) y Cyngor yn gosod rheolau cyffredinol ar gyfer rhoi ac ariannu cymorth ar gyfer had (Erthygl 1) fel ei ddiwygiwyd ddiwethaf gan (EEC) Rhif 3795/85(**35**)
Y Cynllun Cwotâu Llaeth a chynhyrchion llaeth	(EEC) Rhif 1788/2003(**36**)) yn sefydlu ardoll ychwanegol yn y sector llaeth
Y Cynllun Dros Dri Deg Mis	(EC) Rhif 1254/1999(**37**) y Cyngor ar gyd-drefniadaeth y farchnad mewn cig eidion a chig llo (Erthygl 39)
Hyrwyddo i'r Farchnad Fewnol	(EC) Rhif 2826/2000(**38**)) ar hysbysrwydd a chamau hyrwyddo ar gyfer cynhyrchion amaethyddol ar y farchnad fewnol (Erthygl 1)
Hyrwyddo i Drydydd Gwledydd	(EC) Rhif 2702/1999(**39**) ar fesurau i ddarparu hysbysrwydd am gynhyrchion amaethyddol a'u hyrwyddo mewn trydydd gwledydd
Y Cynllun Llaeth Ysgol	(EC) Rhif 1255/1999(**40**) ar gyd-drefniadaeth y farchnad mewn llaeth a chynhyrchion llaeth

(**26**) OJ Rhif L297, 21.11.1996, t.1.
(**27**) OJ Rhif L311, 12.12.2000, t.9.
(**28**) OJ Rhif L297, 21.11.1996, t.1.
(**29**) OJ Rhif L285, 23.10.2002, t.13.
(**30**) OJ Rhif L179, 14.7.1999, t.1.
(**31**) OJ Rhif L328, 23.12.2000, t.2.
(**32**) OJ Rhif L246, 5.11.1971, t.1.
(**33**) OJ Rhif L374, 22.12.1999, t.40.
(**34**) OJ Rhif L177, 4.8.1972, t.1.
(**35**) OJ Rhif L367, 31.12.1985, t.21.
(**36**) OJ Rhif L270, 21.10.2003, t.123.
(**37**) OJ Rhif L160, 26.6.1999, t.21
(**38**) OJ Rhif L325, 23.12.2000, t.2.
(**39**) OJ Rhif L327, 21.12.1999, t.7.
(**40**) OJ Rhif L160, 26.6.1999, t.48.